Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru

Cyd-bwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2017

Parc Cathays, Caerdydd

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sara | Ahmad | SA | Llywodraeth Cymru |
| Gareth | Brand | GB | Llywodraeth Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Richard | Cardwell | RC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Alex | Fitzpatrick | AF | Llywodraeth Cymru |
| Alan | Jackson | AJ | Llywodraeth Cymru |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Jenny | Murphy | JM | Uned Ddata Cymru |
| Scott | Orford | SO | WISERD, Prifysgol Caerdydd |
| Rhys | Powell | RP | Iechyd Cyhoeddus Cymru, GIG Cymru |
| Yuan | Shen | YS | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Neil | Townsend | NT | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Gowan | Watkins | GW | Llywodraeth Cymru |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lowri | Wyn Francis | LW | Cyngor Gwynedd |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Fiona | Clay-Poole | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Jill | Edge | Cyngor Sir Fynwy |
| Janine | Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rhys | Fidler | Uned Ddata Cymru |
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Nia | Jones | Llywodraeth Cymru |
| Sarah | Jones | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| David | Morgan | Cyngor Sir Penfro |
| Shan | Morris | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Matthew | Scanlon | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Andrew | Stephens | Uned Ddata Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
| | • Agorodd GJ y cyfarfod a chroesawu aelodau newydd. Bydd SL/GJ yn cynnig dewis VC ar gyfer cyfarfod Gogledd Cymru yn y dyfodol<br>• Nododd GJ fod Neville Evans, Ynys Môn, wedi ymddeol a’i fod wedi anfon ei ddymuniadau gorau a diolch am gydweithrediad yr aelodau yn ystod y cyfnod byr y bu'n mynychu'r cyfarfodydd hyn. Diolchodd GJ i Neville am ei amser ar y Pwyllgor. | |
| **2** | **Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar bwyntiau gweithredu** | |
| | • Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol<br>• Cam Gweithredu 1: GJ – Roedd rhai problemau wedi bod gyda gweminar StatsCymru; bydd yn bwydo yn ôl cyn hir gyda dyddiadau<br>• Cam Gweithredu 3: Byddai GJ yn holi Scott Orford yn nes ymlaen yn y cyfarfod<br>• Cam Gweithredu 4: Heb ei gwblhau<br>• Cam Gweithredu 5: Bydd GJ yn dosbarthu nodyn<br>• Cam Gweithredu 6: Rhoes JM y newyddion diweddaraf - mae data yn barod, unrhyw gwestiynau siarad â JM<br>• Cam Gweithredu 9 a 10: Yn parhau. Nododd YS fod awgrym wedi bod mewn cyfarfod diweddar o awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan CLILC y dylai rhai cwestiynau ynghylch boddhad â gwasanaethau fod yn gyson rhwng Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac arolygon yr awdurdodau lleol<br>• Cam Gweithredu 13: Tanlinellodd GJ bwysigrwydd adborth<br>• Cam Gweithredu 14: JM i fynd ar drywydd materion â PAMs addysg<br>• Cam Gweithredu 15: Dechreuodd GM drafodaeth ynghylch anawsterau wrth ddeall STEAM. Soniodd LW y gall unrhyw un elwa ar ddata STEAM hyd yn oed os nad yw'n talu i mewn iddo. SL i fwydo sgwrs yn ôl i Robert Lewis ynghylch STEAM. Cynigiodd JM wirio'r sefyllfa ar draws gwahanol awdurdodau<br>• Camau Gweithredu 16-25: dim cwestiynau | **Cam gweithredu: JM i siarad ag Andrew Stephens ynghylch cwestiynau'r arolwg cenedlaethol a sut y gallai'r adborth o gyfarfod CLILC gael ei godi gyda thîm yr arolwg cenedlaethol**<br><br>**Cam gweithredu: JM i gynnal ymarfer desg ar weithgarwch sy'n digwydd ar draws yr awdurdodau ar ddadansoddi twristiaeth.**<br><br>**Cam gweithredu: SL i fwydo yn ôl i Robert Lewis ar y sgwrs ynghylch STEAM** |
| **3** | **Adolygu papurau gwybodaeth** | |
| | Y Diweddaraf am Ddemograffeg<br>• Nododd GJ nifer o newidiadau staffio sy'n digwydd yn Llywodraeth Cymru: Bydd Adam Al-Nuaimi yn gadael cyn hir. Bydd Alan Jackson yn ymddeol ym mis Chwefror – yn ceisio cael rhywun yn ei le yn fewnol. Ymddeolodd Gwyneth Thomas ym mis Medi.<br><br>Y diweddaraf ynghylch yr Uned Ddata<br><br>• Roedd VD yn pryderu nad oes digon o adborth yn mynd i lywodraeth leol mewn perthynas ag asesiadau llesiant a bod diffyg cydgysylltu ar draws asesiadau llesiant ar Dasglu'r Cymoedd er enghraifft.<br>• Cyfarfu AW â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i siarad am ddatblygu sgiliau. Soniodd am y posibilrwydd o gynllun prentisiaethau i hybu sgiliau trosglwyddadwy. | **Cam gweithredu: JM i fynd â phryderon ynghylch dim digon o gyfathrebu â'r Awdurdodau Lleol yn ôl i'r Uned Ddata** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Dywedodd GJ fod Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r awdurdodau lleol i ryddhau mwy o ddata gan y credir bod data agored yn beth da.<br><br>Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF)<br>• Nid oedd y tîm yn gallu mynychu'r cyfarfod. Roedd awgrym y gallai cyfarfod ffôn ar wahân ar yr NDF a datblygiadau mawr ymlaen fod o ddefnydd. | |
| **4** | **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
| | Ffoniodd David Thomas i roi diweddariad ar adrodd ar dueddiadau'r dyfodol.<br>• Mae Objective Connect yn ffordd o rannu gwaith sy'n cael ei wneud ar dueddiadau'r dyfodol. Gofynnwyd a yw pobl wedi bod yn defnyddio hyn<br>• Dywedodd VD fod problemau wrth gael mynediad i Objective Connect a bod amserlenni tynn ar gyfer y cynlluniau llesiant lleol nesaf yn golygu nad oes modd gwneud llawer o ddadansoddi. Roedd rhywfaint o ddadansoddi wedi cael ei gomisiynu ar lefel Gwent ar gyfer tueddiadau'r dyfodol; bydd VD yn rhannu gwybodaeth am hyn yn y grŵp<br>• Soniodd PJ am y bwlch sgiliau ar gyfer dadansoddiad atchweliad o fewn ALI/PSBs<br>• Soniodd GJ am yr adroddiad blynyddol ar lesiant a oedd wedi'i gyhoeddi yng Nghymru sef 'Llesiant yng Nghymru'<br>• Medi 2018 fydd y dyddiad cyhoeddi nesaf ond caiff y tudalennau 46 o ddangosyddion diweddaru drwy gydol y flwyddyn<br>• Mae pob un o'r saith naratif ar gael ar fformat PDF i'w hargraffu<br>• Byddem yn gwerthfawrogi adborth ar ddefnyddioldeb a chynnwys y safle, trwy survey monkey - darperir dolen ym mlog arfaethedig GJ. | **Cam gweithredu: Rhoi i DT restr o'r rhai sy'n bresennol er mwyn iddo gylchredeg dolen Objective Connect i ddeunydd Tueddiadau'r Dyfodol**<br><br>**Cam gweithredu: GJ i gylchredeg dolenni i adroddiad Llesiant Cymru a chynnwys cais am adborth ar adroddiad Llesiant Cymru yn ei flog arfaethedig** |
| **5** | **Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai (HCEP) - diweddariad** | |
| | Rhoes GW wybodaeth am nod a chefndir arolwg HCEP a nod Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i (HSAR).<br>• Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) yn casglu data ac yn dadansoddi ar lefel genedlaethol yn unig yn lle edrych ar awdurdodau lleol penodol<br>• Disgwylir adroddiad yn adlewyrchu canlyniadau'r arolwg yn ystod Hydref 2018, canlyniadau wedi'u diweddaru ar dlodi tanwydd ddiwedd 2018<br>• Codwyd y sampl o'r Arolwg Cenedlaethol felly mae'n cynrychioli Cymru'n dda ac yn sicrhau y caiff oedran yr eiddo ei ddala<br>• Cyfarfod ag NDF i drafod materion tai<br>• Mae gan GB ddiddordeb mewn adborth ar ddiben drafft HSAR ac mae arno angen mewnbwn oddi wrth randdeiliaid.<br>• Defnyddir HSAR ochr yn ochr ag Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Mae adroddiad ar argaeledd setiau data perthnasol ar gael. Roedd gan LWF ddiddordeb mewn cael hyn. GB i rannu â'r aelodau.<br>• GB yn awyddus i glywed am unrhyw ffynonellau eraill o ddata a allai fod ar gael<br>• Disgwyl gallu defnyddio HSAR i fodelu data WHCS i lefel is (yn ddaearyddol ac yn ôl math) | **Cam gweithredu: GB i gylchreded adroddiad ar argaeledd setiau data ar gyfer HSAR a gofyn am adborth.** |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Gweler Unrhyw Fater Arall | |
| **7** | **Prawf Cyfrifiad  2017** | |
| | Rhoes Neil Townsend (NT) y newyddion diweddaraf ar Brawf Cyfrifiad 2017.<br>• Erbyn 2021 angen deall pa fathau o bobl sy'n llenwi'r Cyfrifiad ar-lein o'i gymharu ag ar bapur<br>• Profi fformat a derbynioldeb cwestiwn posibl ar Hunaniaeth Rywiol<br>• Cynnal Prawf Cyfrifiad 2017 ar draws saith ardal o'r wlad i dreialu prosesau ar-lein a gwahanol fersiynau o'r cwestiwn ar Hunaniaeth Rywiol.<br>• Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ostyngiad mewn diddordeb pan gynhwyswyd y cwestiwn ar Hunaniaeth Rywiol.<br>• Cynllunio ar gyfer cyfradd ymateb o 75 y cant ar-lein yn 2021<br>• Cyfradd ymateb o 43 y cant ar gyfer Prawf Cyfrifiad 2017 – yr uchaf oedd  Powys 54 y cant a'r isaf Southwark 34 y cant<br>• Rhoes ONS brawf hefyd ar effeithiolrwydd llythyrau atgoffa<br>• O edrych ar ymatebion ar-lein, roedd cynnydd nodedig pan newidiwyd arddull y llythyr a phan roddwyd cod ar-lein i'r defnyddiwr eto. | **Cam gweithredu: NT i gylchredeg copïau o lythyr atgoffa cyntaf y Prawf Cyfrifiad a llythyr atgoffa'r Tîm Cipolwg ar Ymddygiad (BIT) er mwyn i'r aelodau weld y gwahanol arddulliau.** |
| **8** | **Pynciau a Chwestiynau Cyfrifiad 2021.** | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan Neil Townsend.<br>• 1095 o ymatebion i ymgynghoriad pynciau ONS yn 2015<br>• Pwysau am flychau ychwanegol ar y cwestiwn ethnigrwydd<br>• Efallai y bydd angen diweddaru'r cwestiwn ar gymwysterau ac o gofio'r amser cyfartalog y mae'n cymryd i'w gwblhau<br>• Tanlinellodd VD fod y cwestiwn ar gymwysterau'n  aneglur i brentisiaid<br>• Mae'n debygol y caiff cwestiwn newydd a anelir at Gymuned y Lluoedd Arfog ei argymell<br>• Tanlinellodd AW y mater o wahaniaeth mewn gallu o ran y cwestiwn am y Gymraeg a'r angen i brif iaith gael ei rhannu'n Gymraeg a Saesneg. Er hynny, nododd GJ ei bod yn bwysig sicrhau nad oes diffyg parhad o ran data am nifer y siaradwyr Cymraeg. | **Cam gweithredu: Bydd NT ac SL yn edrych ar fater cwestiwn y Cyfrifiad ar gymwysterau a phrentisiaid.** |
| **9** | **Diwygio Lles** | |
| | Cyflwyniad gan Sara Ahmad (SA) ar Ddiwygio Lles ac yn arbennig, cyflwyno Credyd Cynhwysol (UC) yn raddol ac argaeledd data ystadegol.<br>• Esboniodd SA mai taliad misol yw UC i helpu aelwydydd ar incwm isel i dalu costau byw<br>• Yn ôl y sôn mae problem ynghylch amseroedd aros i rai hawlwyr cyn cael eu taliad UC cyntaf<br>• Os dilynir yr amserlen bresennol mae'r cynllun cyflwyno graddol ar gyfer y Gwasanaeth Llawn (ar gyfer hawlwyr newydd ac ‘ymfudwyr naturiol’) yn anelu at gyrraedd holl awdurdodau lleol Prydain Fawr erbyn Medi 2018<br>• Bwriedir i Ymfudo a Reolir yn achos hawlwyr budd-daliadau presennol bara rhwng 2019 a 2022 | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhyddhau canllawiau diwygiedig ar flaensymiau ac mae wedi rhyddhau map rhyngweithiol i weld ystadegau UC<br>• Data arbrofol newydd ar gael oddi wrth DWP ar bobl ac aelwydydd ar UC (gan gynnwys gwybodaeth am 'amodoldeb' e.e. ceiswyr swyddi, a chydrannau budd-daliadau e.e. tai, plant, anabledd)<br>• DWP yn ymgynghori ar gynlluniau i estyn yr ystadegau sydd ar gael ar UC (daeth i ben 24 Hydref). Mae ystadegau ar gosbau ar gael o hyd.<br><br>Cyflwyniad gan Alex Fitzpatrick (AF) ar 'Gontractau Dim Oriau'.<br>• Yr elfen gyffredin rhwng pob contract dim oriau yw'r diffyg isafswm oriau wedi'u gwarantu<br>• Cyhoeddir data gan ONS fel 'contracts that do not guarantee a minimum number of hours'. Rhoes 883,000 am 'gontractau dim oriau' yn y Du rhwng Ebrill-Mehefin 2017.<br>• Gallai rhywfaint o'r cynnydd yn nifer y contractau dim oriau sydd wedi'u cofnodi yn ddiweddar fod oherwydd gwell ymwybyddiaeth o'r term 'contract dim oriau'. | |
| **10** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | • Tynnodd SK sylw at y nodyn a gylchredwyd am BRES, gan danlinellu'r data mwy mân ar lefelau is sydd ar gael a bod y ffiniau talgrynnu wedi'u diwygio<br>• Mynegodd GJ anawsterau wrth gael mynediad i'r VML. Er hynny, mae AF i'r farn y bydd hyn yn llai o broblem i'r awdurdodau lleol oherwydd eu gwahanol systemau gweithredu<br>• Nodwyd bod Llywodraeth Cymru'n ystyried dewisiadau ar gyfer ymdrin â BRES ar StatsCymru a gofynnodd a oedd defnyddwyr yn fodlon cael gafael ar ddata trwy NOMIS<br>• Mae VD yn hapus i ddod i siarad yn fwy am y gwaith y mae ei hawdurdod lleol yn ei wneud gyda sefydliad Happy Cities / Happy Communities<br>• Nododd RP fod diweddariad i Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd dros Gymru (PHOF) wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar. Arf sy'n datblygu yw hwn; byddai PHW yn croesawu adborth ar y ffordd y mae'n cael ei gyflwyno.<br>• Cododd JM fater ynghylch cael papurau ar gyfer y cyfarfod ar fyr rybudd, ond canmolodd y ffaith bod yr agenda'n brydlon. | **Cam gweithredu: Yr aelodau i fwydo unrhyw sylwadau yn ôl ar y PHOF to RP** |

| **Rhif** | **Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu** | **Statws** |
|---|---|---|
| **1.** | **JM i siarad ag Andrew Stephens ynghylch cwestiynau'r arolwg cenedlaethol a chael adborth gan dîn yr Arolwg Cenedlaethol** | |
| **2.** | **JM i gynnal ymarfer desg ar weithgarwch sy'n digwydd ar draws yr awdurdodau ar ddadansoddi twristiaeth.** | |
| **3.** | **SL i fwydo yn ôl i Robert Lewis ar y sgwrs ynghylch STEAM** | |
| **4.** | **JM i fynd â phryderon ynghylch dim digon o gyfathrebu â'r Awdurdodau Lleol yn ôl i'r Uned Ddata** | |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Rhoi rhestru o fynychwyr i DT er mwyn iddo gylchredeg dolen Objective Connect | |
| 6. | GJ i gylchredeg dolenni i adroddiad Llesiant Cymru a chynnwys cais am adborth ar adroddiad Llesiant Cymru yn ei flog arfaethedig | |
| 7. | GB i gylchreded adroddiad ar argaeledd setiau data ar gyfer HSAR a gofyn am adborth. | |
| 8. | NT i gylchredeg copïau o lythyr atgoffa cyntaf Prawf Cyfrifiad a anfonwyd allan a llythyr atgoffa'r Tîm Cipolwg ar Ymddygiad er mwyn i'r aelodau weld y gwahanol arddulliau. | Cwblhawyd 301017 |
| 9. | Bydd NT ac SL yn edrych ar fater cwestiwn y Cyfrifiad ar gymwysterau a phrentisiaid | |
| 10. | Yr aelodau i fwydo unrhyw sylwadau yn ôl ar y Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd (PHOF) diweddaraf i RP | |